

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 4ydd 2014 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Gethin Morris (Cadeirydd), Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Eifion Davies, Dewi Pritchard, Gary Thomas, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans, Gwenda Morris, Alwyn Roberts, Tina Davies a Maldwyn Jones.

Croesawyd Gary Thomas a Dewi Pritchard i'w cyfarfod cyntaf.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Materion y Mynwentydd.

Frongoch a Llandderfel.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf roedd y cler wedi cysylltu gyda'r contractwyr i drefnu'r gwaith yn y mynwentydd. Cafwyd cadarnhad gan y cler bod y cais i Gyngor Gwynedd am gyfraniad tuag at y gwaith cyfalaf o dan eu Cynllun Diffyg yn y Cyfrif Claddu wedi cael ei yrru.

Wal gynnal mynwent Llanfor.

Roedd y cler wedi derbyn copïau o'r dogfennau o'r Archifdy Cenedlaethol ac astudiwyd eu cynnwys. Gan nad oedd unrhyw gyfeiriad at berchnogaeth y wal gynnal cytunodd Alwyn Jones i holi'r trigolion lleol i weld pwy oedd wedi cymryd cyfrifoldeb o unrhyw waith cynnal a chadw yn y gorffennol.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn / Cwmni Pum Plwy Penllyn

- i) Ail drafodwyd y cynnig i fynychu'r sesiwn hyfforddiant 'Datganoli Gwasanaethau' a oedd yn cael ei drefnu gan y Bartneriaeth. Cafwyd cadarnhad y byddai'r Bartneriaeth yn talu cost y cwrs a phenderfynwyd y byddai Gethin Morris, Eifion Davies, Alwyn Roberts a'r cler yn mynychu'r hyfforddiant.
- ii) Derbyniwyd braslun o hyn a drafodwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 22/10/14.

b) Gan Bwyll

- i) Derbyniwyd llythyr yn ein cynghori o ganlyniadau'r arolwg cyflymder ar y A4212 yn Frongoch. Yn dilyn yr arbrawf roedd y safle wedi cael ei chategoreiddio fel safle o bryder cymunedol 'melyn' ac felly bydd y swyddogion yn ymweld â'r safle yn rheolaidd i reoli'r goryrru.

c) Heddlu Gogledd Cymru

- i) Derbyniwyd gwybodaeth am eu hymgyrchion diweddaraf i ddiogelu'r cyhoedd yn ystod dathliadau Calan Gaeaf a nosweithiau tan gwyllt.

ch) Eglwys Christ

- i) Derbyniwyd gwahoddiad i wasanaeth sefydlu'r Parch. Elaine Atack, yn Y Bala ar y 19/11/14.

d) Un Llais Cymru.

- i) Derbyniwyd cais i anfon gwybodaeth a fyddai o gymorth gyda'r 'Arolwg Moch Daear Marw'.

Materion Ariannol.

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Neuadd Bro Derfel a'r Eisteddfod Genedlaethol. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Materion lleol.

Neuadd Mynach

Yn dilyn eu cyfarfod blynyddol derbyniwyd cais gan bwyllgor y neuadd i'r Cyngor gadarnhau pwy fyddai'n eu cynrychioli yng nghyfarfodydd y neuadd. Cytunodd Alwyn Jones i gynrychioli'r Cyngor.

Gofynnwyd i'r clerwr ail gysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r materion isod:-

Polyn trydan ar gyffordd Chefniddwysarn a Chwm Main ar yr A494, Bala.

Ym mis Tachwedd 2011 cytunodd un o swyddogion Cyngor Gwynedd i drefnu bod y polyn trydan sy'n amharu ar weledigaeth y gyrwyr sy'n defnyddio'r gyffordd, yn cael ei symud. Er bu gohebiaeth dros y blynyddoedd yn cadarnhau bod y gwaith am gael ei wneud, 3 mlynedd yn ddiweddarach roedd y polyn dal yn yr un safle.

Yr A494, ger Gors Sarnau.

Ym mis Tachwedd 2013 mynegodd y cynghorwyr eu pryder am gyflwr y ffordd gan fod ceir wedi llithro i mewn i'r gors a gofynnwyd a oedd posib gosod haen 'anti-slip' yno. Ni wnaed unrhyw welliannau i'r ffordd a dros y bythefnos ddiwethaf roedd 4 car arall wedi mynd i mewn i'r gors.

Graeanu cyffordd Ysgol Ffridd y Llyn a'r A494.

Gyda'r gaeaf o'n blaenau gofynnwyd i'r clerwr atgoffa'r Adran Briffyrdd o'r drafodaeth flynyddol gan gofyn iddynt sicrhau bod y gyffordd ac i fyny at yr ysgol yn cael ei raeanu.